

Llais y Llan Mehefin 2017

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Gorffennaf 2017

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Ebrill 19 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mehefin 3 Dydd Sadwrn Cerdded

Mehefin 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mehefin 9 Nos Wener Cinio Blynyddol Clwb Bowlio Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 11 Dydd Sul 11.00 Dyddiad P'ch Dyddiadur Esgair

Mehefin 13 Nos Fawrth 8.00 Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri CCB

Mehefin 14 >60 Clwb Taith Castell Cardigan

Mehefin 14 Dydd Mercher Orsaf Heddlu Symudol yn y pentref.

Mehefin 14 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 21 Nos Fercher 6.00 Cerdded lan drwy'r afon Cerwyn i byllau'r Saint.

Mehefin 23 – 25 Te Parti Mawr Marie Curie

Mehefin 24 Dydd Sadwrn 12.00 – 3.00 Dydd Agored Ysgol Llanpumsaint

Mehefin 24 Nos Sadwrn 7.00 Sine Nomine Singers Eglwys Llanpumsaint

Mehefin 25 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mehefin 25 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Mehefin 26 Dydd Llun 2.00 >60 Clwb Neuadd Bronwydd

Gorffennaf 1 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Ystradfellte

Gorffennaf 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Gorffennaf 6 Nos Iau 7.30 Cór Llanpumsaint a'r Cylch Swper Blynyddol Neuadd Goffa

Gorffennaf 9 Dydd Sul Amgylch Llundain er mwyn codi arian i'r Uned Hosbis

Gorffennaf 12 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Gorffennaf 12 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643
Gorffennaf 15 Dydd Sadwrn 10.00 – 12.00 Eglwys Bore Coffi Neuadd Goffa
Gorffennaf 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Gorffennaf 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Gorffennaf 24 Dydd Llun 2.00 >60 Clwb Neuadd Bronwydd
Awst 9 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643
Awst 11 Nos Wener 7.30 ‘The River’ Neuadd Goffa £7.50
Awst 15 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Awst 31 Nos Iau 8.00 CCB Clwb Bowlio Neuadd Goffa
Medi 5 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Medi 9 Dydd Sadwrn y weiren Zip Skanda Vale
Medi 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Hydref 13 Nos Wener Noson Rasys Neuadd Bronwydd

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Derick Lock 01267253524

Clwb Bowlio Nebo a Llanpumsaint

Trueni i ni golli'r em olaf erbyn Llandyfaelog B oherwydd byddai buddugoliaeth wedi sicrhau'r ail safle i ni am y tro cynta'. Felly'r ystadegau terfynol oedd - Chwarae 22 - Ennill 14 - Colli 5 - Cyfartal 3

Salem enillodd y bencampwriaeth Adran Gyntaf a hynny am y tro cynta' gyda 125 pwynt, Llanboidy yn Ail gyda 114 a Llanpumsaint yn drydydd ar 111 pwynt. Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol ar Nos Iau 31ain o Awst yn y Neuadd goffa am wyth o'r gloch. Os am ymuno a'n Clwb cyfeillgar dewch draw! Am y tro cyntaf ers blynyddoedd cipiodd Bronwydd Darian Roy Bowen, a'r fuddugoliaeth honno'n haeddiannol. Yn y Railwe fydd ein Cinio Blynyddol ar y 9fed o Fehefin, ac yno cawn wybod pwy fydd wedi ennill Tarian y Railwe am chwaraewr y flwyddyn.

Llongyfarchiadau hefyd i dri o'n chwaraewyr Ifanc, Rosalin Day, Catrin Williams a Rhys Williams, oll wedi cwblhau eu hail dymor gyda ni a chwarae'n dda dry'r tymor. Gobeithiwn groesawu dau chwaraewr ifanc newydd gogyfer a'r tymor nesaf pan ddaw Mis Medi.

Derick Lock – Ysgrifennydd

Cymhennu'r Cae Chwarae a Chornel y plant dy dd Sadwrn 3dd o Fehefin

Byddwn yn cyd-gyfarfod ar y dyddiad uchod am ddeg o'r gloch y bore. Bydd ein gwaith yn cynnwys glanhau'r Llwybr Cylch i'w faint gwreiddiol a golchi holl offer y Cornel. Bydd angen menig, rhaw, tociwr, bwced a brwsh arnoch - dim creosot eleni!

Cyrhaeddodd ein torrwr porfa newydd, gobeithio i chi sylwi ar y newid yno!

Clwb Cant Llanpumsaint

Tynnwyd enillwyr Mawrth, Ebrill a Mai yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Lles ac adloniant.

Mawrth £20 – rhif 97 – Pat Jones ** £10 – rhif 2 – Val Lock **
£5 – rhif 9 – Keith Tozer ** £5 – rhif 5 – Marjorie Dentry

Ebrill £20 – rhif 36 – Jill Edwards ** £10 – rhif 10 – Dee Tozer **
£5 – rhif 33 – Arwel Nickolas ** £5 – rhif 75 – Joe Latter

Mai £20 rhif – 39 – Pamela Jones ** £10 – rhif 84 – Brian Gillham**
£5 – rhif 108 – Sara Ryder-Owen ** £5 – rhif 19 – Bob Jameson.

Nid yw'n rhy hwyr i ymuno am eleni – ffoniwch y Trysorydd Derick Lock 253524

Heddlu

Bydd yr Orsaf Heddlu Symudol yn ôl yn y pentref Ddydd Mercher 14eg Mehefin ym maes parcio Neuadd y Pentref. Dewch draw am sgwrs.

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys, Gorsaf Yr Heddlu Carmarthen Police Station 101 Ex 25344 / 25343 martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk

Pwyllgor Lles ac Adloniant.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol apwyntiwyd y Swyddogion canlynol am 2017-8

Cadeiryddes – Pamela Jones - Is-Gadeiryddes Cath Vimpany

Ysgrifenydd – Derik Lock - Trysorydd Sarah Moore

Archwiliwr – Mary Howell - Trysrydd y Clwb Cant – Derick Lock

Archwiliwr y Clwb Cant – Alan Dentry

Bydda'r Pwyllgor yn croesawu wynebau newydd ac yn enwedig rhieni ifanc, o gofio i'r Cae Chwarae a Chornel y Plant fod yn bennaf at ddefnydd plant dan ddeunaw oed. Os am fod yn Ymddiriedolwr yna cysylltwch â'n Cadeirydd, Pamela Jones 253257 neu'r Ysgrifennydd Derick Lock 253524. Cyfarfodydd bob yn ail fis.

Diwrnod Hwyl a Sbri - Sadwrn 6ed o Fai

Bu'n ddiwrnod o lwyddiant a mwynhad diolch i'r tywydd braf ac ymdrechion diflino Capel Nebo, Y Pwyllgor Lles ac Adloniant a Phwyllgor Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. Diolch arbennig i Dave ac Alison Hume am wneud y Rasys Ddefaid gymaint o hwyl.

Bu'r rhai ohonoch fu'n ddigon ffodus gael gafael ar docyn (gwerthwyd y cyfan) yn mwynhau cyngerdd Teyrnged Tina Turner yn y Neuadd.

Daw tocynnau gogyfer a Noson Deyrnged Elvis Presley yn yr Hydref ar werth yn ystod Awst. Cadwch lygad am wybodaeth bellach yn y Llais y Llan nesaf.

Llyfrgell Deithiol - Bob 4 wythnos, ffl gael ffôn 01267 224830

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn dechrau'n brydlon am wyth o'r gloch Nos Fawrth 13eg o Fehefin. Estynnir croeso i bawb gan yr Ymddiriedolwyr oherwydd i'r Neuadd fod at ddefnydd pawb. Rhaid i unrhyw Gynnig i'w drafod fod yn ysgrifenedig yn llaw'r Ysgrifennydd, gyda chynnig ac eilydd, fod yn llaw'r Ysgrifennydd Derick Lock erbyn Dydd Mawrth 6ed o Fehefin. - Maesyfelin, Llanpumsaint sa336by 01267 253524.

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint

Daeth aelodau i arwyddo am y flwyddyn i'r Cyfarfod Cyffredinol ar y 25ain o Chwefror. Dilynwyd hyn gan ddiwrnod o gymhenni ar y 9fed o Ebrill, pan fwynhawyd tywydd heulog wrth fwrw ati o ddifri i wella'r safle. Bu brechdanau bacwn Shirley yn hwb i bawb.

Aeth yr aelodau ati hefyd i wella'r cyflenwad dwr drwy ychwanegu rhagor o gasgenni a'u cysylltu i'r Tai Gwydr. Gobeithio i hyn ysgafnhau'r biliau dwr yn sylweddol eleni. Croeso o hyd i aelodau newydd drwy gysylltu â Keith 253375 neu Ray 253157.

Clwb Gwili Chwedeg Bronwydd

Rydym newydd gyrraedd adre ar ôl tridiau yn ardal Telford, a bu'r tywydd yn garedig wrthym unwaith eto. Wedi cychwyn ar y dydd Iau cawsom ginio yn nhref hynafol ac yna cyrraedd ein gwesty Buckatree Hall Hotel ger Wellington. Dydd Gwener cawsom ddiwrnod llawn o ymweliad i Geunant Ironbridge, y pentref a'r bont ei hun wrth gwrs. Yna ymlaen i amgueddfa awyr agored Blists Hill, lle gwelwyd y trigolion wedi eu gwisgo fel ag yn Oes Fictoria yn ail greu'r profiad o fyw yn yr oes honno.

Wedir brechwast llawn fore Sadwrn aethom i Amgueddfa Llestri Tsieina yn Coalport, cyn aneli am adre gan alw yn yr Amwythig am ginio ysgafn. I orffen y daith galwon am swper yng Ngwety'r Cottage ger Llandeilo.

Daw'r daith diwrnod nesaf ar y 14eg o Fehefin pan ymwelwn â Chastell a thref Aberteifi, gyda gwledda i ddilyn yn Ffostrasol. Mae Glyn Ifans wrthi'n ddyfal yn cynllunio'r pum diwrnod o Dwrci a Thinsel fydd yn digwydd rhwng Hydref 30ain a Thachwedd y 3dd. Byddwn yn mynd i Paignton eleni ac mae yna rai seddi ar ôl yn ôl Glyn. Felly cysylltwch ag e' 01267 236280

Cyfarfûm yn fisol ar y pedwerydd Llun am 2 o'r gloch, gyda siaradwr bob tro, ac mae'r aelodaeth yn dal i fod yn £5.

Dyddiad i'ch Dyddiadur

Ar ddydd Sul Mehefin 11 2017 ymwelwch a chymeryd rhan mewn Dydd Agored y Diwydiant Ffermio lle gwelir ffermydd yn agor eu drysau a chroesawu ymwelwyr. Am 11.00 y bore ar y dyddiad uchod bydd Martin, Nicky, Carwyn a Ceri yn croesawu pawb i'r Esgair yn Llanpumsaint i ymweld a'r fferm, gweld sut y maent yn cadw'r anifeiliad, beth sydd yn cael ei gynhyrchu a hefyd sut mae gwyddoniaeth yn effeithio ar amaethyddiaeth. Cewch hefyd baned a chacen.

Mae mynediad am ddim ond os hoffai unrhyw un roi cyfraniad tuag "Parkinson, UK" fe'i derbynnir gyda diolch. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a www.farmsunday.org

Cyflwyno Skanda Vale

Er ein bod wedi bod yma ers deugain mlynedd bellach 'rwy'n siŵr fod yna sawl un yn dymuno gwybod beth i ni'n ei wneud. 'Does dim digon o le yma i wneud cyfiawnder a'r pwnc felly pam na ddewch chi lan i gael sgwrs a ni a holi beth yw beth wrth gerdded o amgylch. Fe ddechreuon ni bant ar ugain erw'r hen fferm Cwmcreigiau pan oedd y trenau'n dal i redeg heibio, ond erbyn hynny codi'r trac oedden nhw. Er hynny cawsom ambell lift!

Sefydlwr y Gymuned Gwrw (sy'n golygu Athro) wnaeth osod esiampl o weithio'n galed, a bu hynny'n sioc i ambell bwdryn newydd gyrraedd cefn gwlad. Rhaid oedd palu'r ardd yn ddyfal, clirio'r cerrig a chlirio'r holl drangwns ymaith. Disgwylid i bawb wneud diwrnod gonest o waith ac yn hynny o beth 'does dim wedi newid hyd y dydd heddiw. Rhaid i bob ymwelydd gyflawni pedair awr o waith ar ben y cyfnodau gosod o addoli, i gychwyn am bump o'r gloch y bore gan orffen am naw'r hwyr.

Pan osododd y Gwrw drefn hwn credai nifer i'r peth fod yn hollol ddwl, "*Pwy sy'n mynd i godi am bump y bore? O ble i ni gyd yn cael bwyd?*" Ni ellir felly or- bwysleisio cyfraniad y Gwrw Subramanium wrth sefydlu'r Gymuned. Er iddo bellach farw deng mlynedd yn ôl rydym yn dal i ganlyn ei gynllun a'r egwyddorion uchel wnaeth osod. Yr oedd yn ddyn swynol a charismatig, ond gallai fod yn gwerylgar a phenstiff ar adegau hefyd. Cysegrodd ei holl fywyd i wasanaethu Duw, "*Mae gwasanaethu Duw yn gohygu gwasanaethu hynny. Os nag oes yna gariad 'does yna ddim Duw!*"

Mynachod dan brawf yw'r mwyafrif yma, yna Mynachod Ordeiniedig, Lleianod a Swamis. Rhaid i'r Ordeiniedig gymerid llw dlodi, dirweideb ac ufudd-dod, sef addunedau'R Sant Ffransis ei Nawdd Sant. Hefyd gellir cael lleygwyr sydd wedi dewis y ffordd yma o fyw.

Ni thelir neb ac mae pawb yn byw bywyd syml o dderbyn anghenion sylfaenol yn unig. Rheolir y Gymuned yn ddyddiol gan Gyngor y Swamis gyda chyfrifiodeb am bob dim, megis trefnu gwaith bob dydd, cyd-gysylltu cyweithiau mwy fel ail-adeiladu'r Hosbis neu ymateb o ofynion pererinion. Cofrestrwyd y Gymuned yn elusennol yn gynnar, ac mae yna Ymddiriedolwyr sy'n goruchwyllo pethau a chydymffurfio a gofynion y Comisiynydd Elusennol.

Ar hyn o bryd rhyw ddau ddwsin ohonom sydd yma. Gellir rhannu ein cyfrifoldebau rhwng addoli yn y Templau, gofalu am bererinion, gofal am anifeiliaid, yr Hosbis, addysg a rhedeg rhaglen cymorth bwyd. Ond canolfan ein bywydau yw'r addoli dyddiol. Mae cydnabod pob crefydd yn hanfodol i gred Skand Vale, er bod y prif ffocws i'r grefydd Hindŵ, cynhelir gwasanaeth Cristionogol bob Nos Sul ac adeg y Pasg a Nadolig. Cynhelir gwyliau Bwda hefyd ond nid ydym fyth yn ceisio darbwylllo neu achub pobl o un grefydd i'r llall. Er bod gennym lawer o anifeiliaid Valli yr eliffant yw'r enwocaf, ac achubwyd nifer o'r gweddill er mwyn iddynt barhau byw hyd yr eithaf.

Yn yr Hosbis gofalwn am gleifion y siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro ac ymhellach weithiau, drwy gynnal Canolfan Gofal Dyddiol. Cynigwn y Gofal Seibiant ar y safle i'r rhai hynny sy'n wynebu afiechyd terfynol yn rhad ac am ddim. Telir dwy ran o dair o gostau'r Hosbis gan gyfraniadau'r pererinion sy'n ymweld. Daw'r staff sy'n wirfoddolwyr trwyddedig o'r gymuned leol a'n haelodau ni. Hyd yma ond un aelod meddygol cyflogedig sydd yno.

Daw nifer i ymweld o bell ac agos, yn ysgolion, colegau a grwpiau lleol, oherwydd i'r Deml gynnig cyfleoedd aml- grefydd addysgiadol. Yn ôl traddodiad daw'r pererinion ac anrhegion o ffrwythau a gwahanol fwydech. Y llynedd wedi bwydo pawb ddaeth drwy'r fynedfa llwyddom i gyfrannu dros 70 tonnell o fwyd at elusennau lleol a rhyngwladol. Mae'n hynod o beth i ddatgan fel mynachod a Lleianod nad ydym yn ystyried ein hunain yn grefyddol. Cawn ein gyrru ymlaen gan y cyfle i wasanaethu bywyd, a thrwy hynny newid a chyfoethogi ein bywydau ein hunain. Yn rhy aml o lawer cyfyngir crefydd gan reolau, dogma a masnacheiddiwch. Sefydlwyd a chynhaliwyd Skanda Vale a'r Hosbis yn llwyr gan gyfraniadau gwirfoddol, ni chodwyd tal fyth ar neb am ein gwasanaeth.

Fe'm cynhelir gan bobl o bob cefndir pell ac agos sydd wedi dod at ei gilydd i gyd-weithio'n anhunanol.

Newyddion o Hospis Skanda Vale

Cychwynnwyd ar y cynllun *Noddwch Nyrs*, er mwyn ehangu ein Gofal Seibiant o 5 i 10 diwrnod y mis. Bwriedir ymestyn y gwasanaeth o Fis Awst eleni. Felly ewch i'n gwefan

www.skandavalehospice.org <<http://www.skandavalehospice.org>> er mwyn cychwyn taliad i wella ein gofal meddygol.

Cynhelir Ras Hwyl (a thipyn bach o gerdded) ar Sul y 9fed o Orffennaf o amgylch Llundain er mwyn codi arian i'r Uned Hosbis. Bydd y daith heibio i Big Ben a'r Senedd ac ar hyd y Tafwys yn denu miloedd o bob oed a chefnidir, i gyd yn cefnogi gwahanol elusennau. Gobeithio bydd pawb yn gwenu ar y dydd ac yn mwynhau'r picnic ym Mharc Sant Iago ar y diwedd. Dewch bawb!

Byddwn hefyd yn trefnu ymweld â'r Wyddfa mewn ymgyrch arall Codi Arian ar y 9fed o Fedi. Bydd mynd ar y weiren Zip yn brofiad newydd. Am fwy o wybodaeth am yr uchod cysylltwch â'r Hosbis 01559 371222 neu E-bost sister.ally@skandavalehospice.org

<mailto:sister.ally@skandavalehospice.org>

Diolch am y gefnogaeth.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Bu'r ymweliad a Choed Moel yn hyfryd - clychau'r gog ymhobman! Mae'r lluniau ar ein gwefan. Trefnwyd y tair taith nesaf :-

Ar Sadwrn y 3dd o Fehefin cadwn yn lleol drwy aneli am Gwmgreigiau Bach o'r cwm cuddiedig. Yna drwy Skanda Vale cyn dychwelid i'r pentref, sydd yn rhyw 5 milltir. Felly caniatewch 3 awr, wedi gadael y Neuadd am 2 o'r gloch. Ffoniwch yr arweinydd Mike Richardson os ydych yn dod - 01559 384797.

Hefyd, ar y diwrnod hiraf, 21ain, ym Mehefin byddwn, gyda chaniataid, yn cerdded lan drwy'r afon Cerwyn i byllau'r Saint. Cyfarfod am chwech yr hwyr ger y Neuadd eto. Bydd angen wellingtons ac mi ffeindiwch fod pastwn o gymorth, oherwydd bod cerrig yr afon yn slip a bydd rhaid dringo dros ambell gangen coeden. Ond bydd cyrraedd y rhaedrau yn werth yr ymdrech! Os am ddod rhwch wybod i Nick Stoneman 253547.

Ar Sadwrn y cyntaf o Orffennaf byddwn yn aneli am Raeadr Ystradfellte gan ddechrau am 11 o'r gloch - parcio yng Ngwm Porth SN928124 cod post cf449jf. Bu raid gohirio hon y llynedd oherwydd y tywydd blin. Mae'n weddol hawdd o'r maes parcio ar hyd yr afon Mellte, gan fynd heibio Sgwd Clun-gwyn a Sgwd-isaf Clun-gwyn. Yr uchafbwynt fydd cyrraedd Sgwd yr Eira gyda'r llwybr anturus y tu ôl i'r rhaedr, ond byddwch yn ofalus mae'n llithrig yno. Er hynny dyma brofiad unigryw i weld y dŵr yn llifo dros y creigiau o'ch blaen. Bydd dod a lluniaeth a gwisgo esgidiau cerdded a rhwch wybod i Carolyn Smethurst os am ddod 253308

Gwybodaeth bellach ar y wefan www.llanpumsaint.org.uk <<http://www.llanpumsaint.org.uk>>

band eang Ffibr - y diweddaraf

Yn dilyn Y Llais olaf ni ar i hol hi o hyd - B T yn beio'r Senedd a'r Senedd yn beio B T! Ond mi addawodd yr aelod Angela Burns fod popeth i fod i fwcl erbyn 31ain o Fai. Aros i ni o hyd gyda'r amcan o'r dyddiad gorffenedig yn ddau fis. Fe welwyd peirianwyr yn y pentref yn cysylltu'r gwifrau ffibr ond bellach maent wedi diflannu, felly aros mae'r mynyddai mawr!

Daeth peth gwybodaeth i law am yr wyth cam yn yr holl broses; cam 5 yw'r adeiladu felly falle daw hwn i ben erbyn diwedd Mai. Cam 6 - cysylltu; Cam 7 - cychwyn; Cam 8 - derbyn archebion; felly mae sawl milltir i fynd eto. Byddaf yn dal i adrodd yn ôl, ond os ewch ar wefan Openreach gallwch gadw llygad ar bethau eich hunan. Daliwch ati!

Carolyn Smethurst

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Digwyddiadau

Sadwrn Mehefin 24ain – Dydd Agored – O hanner dydd hyd dri o'r gloch.

Nos Wener Awst 11eg – Noson Band *The River* – Neuadd Goffa - 7.30 yh.

Dydd Agored

Mae'r Ysgol a'r Gymdeithas yn eich gwahodd i'r Dydd Agored ar Sadwrn 24ain o Fehefin o 12 tan dri, pan agorir yr achlysur gan un o'r sêr rygbi lleol. Yna bydd y plant yn tywys pobl o amgylch gan arddangos eu gwaith iddynt. Bydd lluniaeth wrth law gyda stondinau crefft, raffl, gemau a pherfformiadau gan y plant.

Noson y Band

Yn dilyn eu llwyddiant y llynedd bydd *The River* yn dychwelid ar Nos Wener 11eg o Awst. Maent yn honni o Abertawe ac yn chwarae'n rheolaedd yn Lorenzo Caerfyrddin. Wedi mwynhau mas draw llynedd maent yn hapus i ddychwelid . Tocynnau £7.50 yw prynu yn y Dydd Agored.

Codi Arian yn Hawdd

Os ydych yn siopa ar y We yna gallwch helpi'r Gymdeithas Rieni drwy ymaelodi ar

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaint

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaint>> PTA neu gysylltu Emma Brown.

Os oes yna rywun yn y gymuned sy'n gallu hawlio £4E/match funding drwy eu gwaith neu ryw fodd arall ac yn barod i ganiatáu'r Gymdeithas Rieni i hawlio'r tal yna cysylltwch â Becky James 01267 253 560.

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Cynhaliwyd perfformiad llwyddiannus iawn o Olivet to Calvary gan J.H.Maunders gyda eitemau amrywiol yn yr ail hanner yn Eglwys y Plwyf, Llandysul ar nos Wener Ebrill 28ain 2017. Arweiniwyd y cór gan Gwyn Nicholas a'r organydd oedd Lynne James. Yr artistiaid gwadd oedd Arwel Evans, Tenor a Gwyn Morris, Bariton. Cafwyd ymateb teilwng iawn ac roedd yr elw yn mynd tuag at elusen ddewisiedig y cór am 2017 sef M.S. Bwriedir cynnal rhywbeth eto cyn diwedd y flwyddyn tuag at yr elusen hyn. Cadwch lygaid am y poster. Ar Orffenaaf 6ed 2017 bydd y cór yn cynnal ei noson Swper ac Adloninat blynyddol yn y Neuadd Goffa am 7.30y.h. Pris tocynnau fydd £15.00 a byddant ar gael gan aelodau'r Cór. Ceir mwy o fanyion am y digwyddiad hyn cyn bo hir.

Te Parti Mawr Marie Curie

Ymunwch a theulu a chyfeillion a chymdogion i gynnal Te Parti Anferth rhwng 23ain a'r 25ain o Fehefin. Bydd eich te cacenni a'r danteithion yn codi arian er mwyn gofalu am ragor sy'n diodde' yn eu dyddiau olaf. Dibynnwn ar eich cefnogaeth a gellir cael pecyn Codi Arian rhad drwy ymweld â Mariecurie.org.uk/teaparty neu alw 0800716146

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Mae'r bleidlais bwysicaf wedi ei fwrw, hynny yw, yr Etholiadau Sirol mewn da o bryd I'r criw yna yn San Steffan I gecra dros eu seddau! Wyth Cynghorydd sydd yng Nghyngor Cymuned Llanpumsaint ac oherwydd I Wyn Thomas a Carolyn Smethurst ymddeol; rhyngddynt, maen't wedi gwasanaethu'r gymuned am 53 mlynedd, mae yna ddwy sedd wag. Eisioes mae yna unigolion gweithgar sydd am wasanaethu eu cymuned wedi cynnig eu henwau ac yng nghyfarfod Mehefin o'r Cyngor, penderfynnir pa ddau fydd yn cael eu dewis. Tebyg yw'r materion a drafodir gan y Cyngor o fis I fis gyda'r mwyafrif ohonynt yn gysylltiedig a'r priffyrdd, ac ar hyn o bryd, ceisio gofalu bod Cynllun Arafu'r Drafnidiaeth yn dod yn weithredol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Eto I ddod, mae newidiadau I'r cyffordd ar waelod Rhiw Cŵpers, ac arwyddion gwell wrth ddod I fewn I'r pentref I groesawu gyrrwyr. Wrth I adnoddau Cyngor y Sir brinhau, mae'n anoddach cael gwaith wedi ei wneud ond dyna paham fod yna Gyngor yn y Gymuned, sef I geisio'r gorau ar gyfer y pentref!

Gweithredu Ynni Lleol

Yng nghyfarfod Mis Ebrill o'r Cyngor anerchwyd Cyngor y Gymuned gan Paul Thomas, arweinydd y prosiect, a chafwyd esboniad a disgrifiad ar sut mae Clybiau Tanwydd yn gweithio, a'r arbedion sydd yn bosib wrth brynu ar y cyd. Manteision posib arall sydd ar gael yw, y gall aelodau'r Clwb Tanwydd arbed cost trydan naill ai wrth newid cyflenwr neu yr amodau cyfredol.. Pe bai Llanpumsaint yn cychwyn Clwb Tanwydd, efallai byddai modd creu Canolfan Galw Mewn fydde hefyd yn gallu cynnig gwasanaethau cyfrifiadurol. Os oes gan aelodau'r gymuned ddiddordeb cychwyn y fath fenter, cysylltwch gyda'r Clerc ar philkto@yahoo.co.uk ac fe drefnir cyfarfod er mwyn symud y syniad yn ei flaen.

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Sunday June 25th: Practical/Healing Day

Sunday July 23rd: TBA

August: No meeting

Sunday September 24th: Serena Rowney-Dougal – Theme to be confirmed

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol, a hawdd ei ddysgu gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd, ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p, ac am £4 cewch banded i'r fargen. Does ddim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547.

Gofal Traed

Dyma ddydiadau y clinig nesaf o 11.00y.b. hyd 4.00y.p, Dydd Mercher Gorffennaf 12

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

Capel Nebo

Mehefin /June 4ydd Mr Peter Harries 10:30

11eg Mr Wyn Maskell 10:30

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Caersalem, Llanpumsaint

Gan fwrw eich holl ofal arno Ef; canys y mae efe yn gofalu drosoch chiwi. 1 Pedr 5:7

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb

Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Mehefin a Gorfffenaf 2017.

Mehefin 11 Gwasanaeth am 2.00y.p. Prifardd Tudur Dylan

Mehefin 25 Gwasanaeth Undebol am 2.00y.p. yn Ffynnonhenri Parch Gareth Morris

Gorfffenaf 9 Cymundeb am 4.00 y.p. Parch Carl Williams

Gorfffenaf 23 Gwasanaeth am 2.00y.p. Mr Arwel Evans.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu

Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Eglwys y Plwyf

Gellir gweld rhestr o'r gwasanaethau ar y Bwletin y tu allan i ddrws y Festri, ac mae yna wybodaeth bellach am amrywiol weithgareddau ar y Wefan www.llanpumsaint.org.uk.

Noson Rasys Ceffylau yn Neuadd Bronwydd - 13eg Hydref

7.00yh - Ras Gyntaf am 7.30. Croeso i bawb dros oed 16. Mwy o wybodaeth nes ymlaen.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn y Cylch hyd yma. Ein thema yn nhymor y Gwanwyn oedd “Patrymau”, ac yna daeth Dydd Gwyl Dewi, Diwrnod Sant Padrig, Sul y Mamau a’r Pasg. Cynhaliwyd ein Cyngerdd Gwyl Dewi ar y 3ydd o Fawrth, a bu’r plant yn dysgu am fywyd Dewi Sant ac yn canu llu o ganeuon i ddathlu ein nawddsant. Tua diwedd y tymor, fel tipyn bach o hwyl i’r plant a’r rhieni, trefnwyd cystadleuaeth “Pobydd Penigamp” yn y sesiwn Ti a Fi olaf y tymor. Bu’r rhieni yn brysur yn coginio cacennau ac yn eu haddurno ar y thema Pasg. Llongyfarchiadau i’r ennillydd ,Hannah a’u chacen siap Wy Pasg..

Bu’r plant ar wibdaith i Fferm Ffoli cyn diwedd y tymor. Yn ffodus roedd y tywydd yn ffafriol a hyfryd oedd gweld y plant yn rhyfeddu ar yr holl wahanol anifeiliaid. Roeddent yn gyffrous iawn i weld y pengwiniad yn fwy na dim. Synnu oeddent wrth eu gweld mor agos drwy’r gwydr yn nofio o dan y dwr.

Ein thema y tymor yma yw “Fi fy hun” a byddwn yn canolbwyntio ar deimladau, synhwyrâu a bwyta’n iach.

Ar y 9fed o Fai cynhaliwyd “Parti Pyjamas Mwya’r Byd” gan y Mudiad Meithrin drwy Gymru gyfan. Daeth y plant a’r staff i’r Cylch yn gwisgo eu pyjamas.

Mae’r plant yn codi arian ar gyfer elusen “Save the Children” y tymor yma drwy fynd allan i’r awyr agored o gwmpas y Cylch i neidio mewn pyllau mwdlyd. Mae ‘r plant wedi codi £60 hyd yn hyn.

Bydd y plant yn mynd i Wyl Feithrin y Mudiad Meithrin ym Mehefin i wyllo Sioe Dewin.

Mae yn achlysur flynyddol bellach sydd yn cael ei gynnal yn yr Ardd Fotaneg , ac os bydd y tywydd yn braf, cawn bicnic ar y lawnt .

Y tymor yma, byddwn hefyd yn ymarfer ar gyfer y Mabolgampau ym mis Gorffennaf.

Felly tymor prysur arall i ni yn y Cylch.

Am fwy o wybodaeth am y Cylch Meithrin , cysylltwch a ni ar 07929 431652 (Verona).

Cylch Meithrin (Bore Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9.15 yb – 12.00 h.d.)

Cylch Ti a Fi –Dydd Gwener 10.00yb – 12.00 hd

Croeso Cynnes.

‘Nol gartre o’r diwedd

Daeth nifer ynghyd i’r Eglwys ar Ddydd Sadwrn 1af o Ebrill i angladd Florence Mary Morgan, neu Florence Post fel ei adnabuwyd yn lleol. Dychwelodd i’w phentref genedigol gan mlynedd yn union wedi ei geni yno.. Hi oedd y drydedd ferch o bedair i Charlotte a William Lewis Y Swyddfa Bost yn Llanpumsaint. Dilynodd eu chwiorydd hyn Eunice a Rachel i ddinas fawr Llundain, tra arhosodd y ieuengaf, sef Mali Post, i ddatblygu’n un o hoelion wyth yr ardal leol yn ystod ail ran yr ugeinfed ganrif.

Dyma deulu wnaeth gyfrannu a dylanwadu’n helaeth iawn yn lleol ac yn ninas fawr Llundain. Mae’r stori’n cychwyn gyda Thomas Ifans, Gorsaf Feistr Llanpumsaint am ddeng mlynedd ar hugain, wnaeth adeiladu’r tafarn a’r Swyddfa Bost drws nesa’. Trosglwyddwyd ei ddawn busnes i’r ddau fab wnaeth godi eu pac ac aneli am Lundain, lle datblygodd D R Evans gwmni cyfanwerthol hynod o lwyddiannus, ac yn w’r dylanwadol dros ben ymysg y Cymry Llundain. Ond nid anghofiodd ei gefndir oherwydd ei rodd o £500 yn ei ewyllys wnaeth gychwyn yr ymgyrch i godi Neuadd yn Llanpumsaint. Daeth y brawd arall hefyd yn enwog wrth i Tim esgyn i fod yn Uchel Siryf Sir Gaerfyrddin. Mae’n ddiddorol i’r ddawn deuluol yma barhau pan welwyd William Lloyd, Sef mab Mali, gael eu hapwyntio’n Brif Weithredwr Cwmni Teiars A T S yn y genhedlaeth nesaf.

Ond ‘nol a ni i’r dechre unwaith eto, er i’r ddau frawd, sef D R a Tim, fynd bant, arhosodd ei chwaer Charlotte gartre i briodi William Lewis perchennog Ffatri wlân Glanyrynys, i redeg y Post a chodi’r pedair merch. Dan anogaeth Mr Johns yr Ysgol Feistr hedfanodd Florence drwy’r arholiadau a chychwyn cerdded mas i Benrhewlgam bob dydd i ddal y Bws am ysgol y dre. Wedyn bant a hi am Lundain i ddangos i’r byd fod ganddi feddwl annibynnol drwy droi i lawr y cynnig am swydd saff weinyddol ym musnes ei ewythr D R a dilyn ei thynged yn y byd Nyrsio.

Bu ynghanol twrw’r Ail Ryfel Byd yn Llundain, ac unwaith ond ei thŷ hi oedd yn sefyll ar ôl yn y stryd wedi un ymgyrch fomio. Ond daeth serch i’r adwy hefyd wrth iddo syrthio mewn cariad a Gweinidog golygus a phriodi’r Doctor Irvonwy Morgan . Bu bywyd yn greulon hefyd wrth iddi golli eu gŵr a’i dwy ferch ymhell cyn eu hamser. Er hynny nid gwraig i alari mewn cornel oedd Florence a thaflodd ei hun i mewn i fyw bywyd yn llawn. Gydol ei hoes bu’n gyson gefnogol i’r Eisteddfod Genedlaethol a’r byd theatr yn Llundain. Yna aeth ati’n awchus i ddysgu ieithoedd tramor gan gynnwys Sbaeneg, Ffrangeg ac Almaeneg, a’u hymarfer drwy ymweld â’r gwledydd hynny. Rhoddodd dro ar Rwsieg ac Arabeg hefyd. Yn un o’r cynta’ i hedfan ar yr awyren Concorde dathlodd ei phen-blwydd yn bedwar ugain ym Mharis. Yna cyrhaeddodd y nawdeg a’r cant yng nghwmni ei theulu gan fyw gartre o hyd. Ei gobraith oedd ymuno a dathliad cant a hanner Ysgol Llanpumsaint yn 2014 ond oedran a’i rhwystrodd. Ond mae wedi dychwelid o’r diwedd!

Arwyn 2017

Village Voice

June 2017

Copy Date for next Edition 24th July 2017

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

June 3 Saturday 10.00 Playing Field Tidy Up

June 3 Saturday 2.00 Walk up to Cwm Creigiau Fach from Memorial Hall

June 6 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

June 9 Friday Bowls Club Annual Dinner Railway Inn

June 11 Saturday 11.00 Open Farm Sunday Esgair

June 13 Tuesday 8.00 Llanpumsaint & Ffynnonhenry Memorial Hall AGM Memorial Hall

June 14 Wednesday >60 Club day trip to Cardigan Castle

June 14 Wednesday Mobile Police station in village

June 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

June 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

June 21 Wednesday 6.00 Walk to the Five Pools Llanpumsaint from Memorial Hall

June 23 Friday – 25 Sunday Marie Curie Great Tea Party

June 24 Saturday 12 .00 – 3.00 Open Day at Llanpumsaint School

June 24 Saturday 7.00 Sine Nomine Singers Llanpumsaint Church

June 25 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

June 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

June 26 Monday 2.00 >60 Club Bronwydd Hall

July 1 Saturday 11.00 Ysrtadfellte Waterfalls Walk

July 4 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

July 6 Thursday 7.30 Llanpumsaint Choir Annual Supper and Entertainment Memorial Hall

July 9 Sunday Fun Run in London for Skanda Vale Hospice

July 12 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

July 12 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

July 15 Saturday 10.00 – 12.00 Church Coffee Morning Memorial Hall

July 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

July 23 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

July 24 Monday 2.00 >60 Club Bronwydd Hall

August 9 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

August 11 Friday 7.30 'The River' at Memorial Hall £7.50

August 15 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 31 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall
September 5 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall
September 9 Saturday Zip Wire at Snowdon in aid of Skanda Vale Hospice 01559 371222
September 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
October 13 Friday Race Night Bronwydd Hall

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524

PLAYING FIELD AND PLAY AREA TIDY-UP - Saturday 3rd. June

A reminder that our annual tidy-up is taking place on the above date from 10.00a.m. and will include carrying on with the clearing back of the circular footpath to its original width and the washing down of the Play Area equipment.

If you would like to help, please bring with you gloves, spade pruner and/or bucket and scrubbing brush (no creosote this year!!!)

Our new mower has been delivered, hope you have noticed the difference!

Fibre Broadband Update

Well, after the last Village Voice, we ended up with what seemed like a stalemate – BT blaming the Welsh Government, the Welsh Government blaming BT! We did get a response via Angela Burns, Assembly Member that the estimated build completion date was 31st May. Well, we are still waiting, and the completion time for the installation is still an estimated 2 months, so no nearer forward. It was good to see the engineers in the village linking the fibre cables, but they have now gone, and we are still in limbo.

I have had some clarification re the 8 stages for getting broadband. Completion of the build is stage 5, so that may well occur by 31st May, but then we have stage 6 - connect, stage 7 - activation and then stage 8 - accepting orders. Long way still to go.

I will keep you updated, but if you go on the Openreach website, you will be able to keep up to date. Meanwhile, keep the jungle drums! Carolyn Smethurst

West Wales Dowsers Society – Future Events

Sunday June 25th: Practical/Healing Day

Sunday July 23rd: TBA

August: No meeting

Sunday September 24th: Serena Rowney-Dougal – Theme to be confirmed

Dowsing is a useful and interesting practice that almost anyone can learn. It's thought to have originated in Egypt or even earlier. Many companies use the services of experienced dowsers to search for water, minerals, oil, electricity cables etc. Some people dowse the safety of their food, and check for geopathic stress in their surroundings, but this is a personal belief and not yet scientifically proven. Why not come along on Sunday to find out for yourself? Bronwydd Village Hall, 1.45 pm. Entrance is £4 per person including a welcome cuppa and a biscuit in the break. No equipment is necessary, just bring yourselves.

Further Information: Sandy 01267 253547 Ring for details.

Llanpumsaint Community Council

